# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad:

**Microsoft Teams**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Mai 2020

Amser: 09.15 - 13.30

# WRB29

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd: | Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)<br>Ronnie Alexander<br>Trevor Reaney<br>Michael Redhouse<br>Y Fonesig Jane Roberts |
| Swyddogion: | Joanna Adams, Uwch-bartner Busnes Aelodau'r Cynulliad<br>Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol<br>Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol<br>Carys Evans, Pennaeth Cyswllt a Datblygiad Proffesiynol yr Aelodau<br>Martin Jennings, Y Gwasanaeth Ymchwil<br>Craig Griffiths, Gwasanaeth Cyfreithiol<br>Gareth Watts, Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd |
| Ysgrifenyddiaeth: | Lleu Williams (Clerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)<br>Huw Gapper (Ysgrifenyddiaeth) |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.3 Yn amodol ar destun ychwanegol i baragraff 4.1, cytunodd y Bwrdd ar gofnodion 2 Ebrill fel rhai cywir.

1.4 Nododd y Bwrdd y diweddariad am wariant mewn perthynas â Covid-19 a nifer yr Aelodau sydd wedi cymryd y Lwfans Gweithio o Gartref. Cytunodd y Bwrdd i ysgrifennu at yr Aelodau i'w hatgoffa o'r cymorth sydd ar gael a rhoi sicrwydd iddynt bod y Bwrdd yn barod i'w cynorthwyo yn ystod y cyfnod heriol hwn. Cytunodd y Bwrdd i ystyried diweddariad pellach mewn perthynas â Covid-19 yn y cyfarfod nesaf, gan gynnwys gwaith paratoi rhag ofn y byddai'n rhaid delio ag ail don o'r feirws.

1.5 Roedd y Bwrdd hefyd o'r farn y gallai fod cynnydd yn y dyfodol yn y costau sy'n gysylltiedig â DSE ar gyfer gweithio o gartref mewn perthynas ag iechyd a diogelwch gweithwyr. Nododd y Bwrdd y cyngor ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn arbennig mewn perthynas â gweithio unigol. Er bod y Bwrdd yn cydnabod bod gwariant ar deithio gan Aelodau er enghraifft yn llai ac felly y gallai dalu'r costau sy'n gysylltiedig â chymorth mewn perthynas â Covid-19, byddai angen cadw llygad ar hyn. Nododd y Bwrdd fod y Comisiwn yn bwriadu cynnal arolwg gyda'r Aelodau i weld a yw eu gofynion o ran offer TGCh yn cael eu bodloni, a phwysleisiodd ei gyngor y dylai'r Aelodau gaffael offer a gymeradwyir gan y Comisiwn er y gallai'r gost fod ychydig yn uwch.

1.6 Trafododd y Bwrdd ddiweddariad ar ddatblygu Contractau a Llawlyfr Staff Cymorth. Cafodd y Bwrdd sicrwydd o'r ffaith y cafwyd adborth cychwynnol cadarnhaol gan grwpiau'r pleidiau a phenaethiaid staff. Cytunodd y Bwrdd i dynnu sylw'r Bwrdd sy'n ei olynu at y mater hwn yn ei nodyn trosglwyddo.

1.7 Nododd y Bwrdd ddiweddariad ar y defnydd o ddyfeisiau diogelwch personol a chytunodd i drafod gwybodaeth bellach yn ei gyfarfod nesaf. Cytunodd y Bwrdd hefyd y byddai angen cynnwys y mater hwn yn y nodyn trosglwyddo i'r Bwrdd sy'n ei olynu.

1.8 Nododd y Bwrdd ddiweddariad ynghylch apeliadau a gofynnodd am gael tynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw apeliadau ynghylch Covid-19 er gwybodaeth ar ôl iddynt gael eu cwblhau.

1.9 Nododd y Bwrdd fod y taliadau goramser ar gyfer aelodau teulu wedi'u cyhoeddi am y tro cyntaf a chytunodd y dylid eu hystyried adeg y cyhoeddiad nesaf, y flwyddyn nesaf.

1.10 Trafododd y Bwrdd y trefniadau ar gyfer trosglwyddo i'r Bwrdd sy'n ei olynu ym mis Medi 2020, a chytunwyd i drafod hyn ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

**Camau gweithredu:**

- Yr Ysgrifenyddiaeth i gyhoeddi cofnodion cyfarfod mis Ebrill, yn amodol ar y newid bach a nodir uchod.
- Paratoi papur i'r Bwrdd ei drafod yn y cyfarfod nesaf mewn perthynas â'r cymorth a ddarperir mewn perthynas â Covid-19.

**2 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd**

2.1 Trafododd y Bwrdd destun terfynol y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd.

2.2 Yn amodol ar welliant i'r adroddiad i egluro'r sefyllfa bresennol sy'n ymwneud â theithio gan Aelodau i Aelod-wladwriaethau'r UE ar ôl i'r DU roi'r gorau i fod yn aelod o'r UE, cytunodd y Bwrdd ar yr adroddiad ar yr Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd.

2.3 Trafododd y Bwrdd y trefniadau cyhoeddi ar gyfer y Penderfyniad a chytunodd, oherwydd yr amgylchiadau presennol gyda Covid-19, y byddai'n fwy priodol gohirio'r cyhoeddi o wythnos.

2.4 Roedd y Bwrdd yn dymuno rhoi diolch arbennig i Huw Gapper am ei waith rhagorol yn cynorthwyo'r Bwrdd i gyhoeddi Penderfyniad y mae'n falch ohono ac sy'n crisialu gwaith ac ethos y Bwrdd dros y pum mlynedd diwethaf.

**Camau gweithredu**:

- Yr ysgrifenyddiaeth i wneud yr holl drefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd a'r adroddiad cysylltiedig ar 4 Mehefin 2020.

## 3 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Etifeddiaeth y Bwrdd

3.1 Trafododd y Bwrdd ei etifeddiaeth i'r Bwrdd olynol. Cytunodd y Bwrdd fod y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn crisialu ei waith dros y pum mlynedd diwethaf, ac felly penderfynodd beidio â chyhoeddi adroddiad etifeddiaeth.

3.2 Nododd y Bwrdd ddiweddariad llafar gan Gareth Watts, Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd, ynghylch yr Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod ei gyfnod gweithredol. Cytunodd y Bwrdd i drafod yr adroddiad terfynol yn ei gyfarfod nesaf, gan gynnwys a fyddai'n cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn yr haf.

**Camau gweithredu:**

- Yr ysgrifenyddiaeth i roi nodyn trosglwyddo drafft i'r Bwrdd ar gyfer y Bwrdd nesaf, i gytuno arno yn y cyfarfod nesaf.
- Paratoi'r Adroddiad ar yr Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd, i'w drafod a chytuno arno yn y cyfarfod nesaf.